

Hwyl wrth Ddarllen 4



Mwnici



Pecyn Darllen Anifeiliaid

Gweithgareddau i rannu gyda'ch plentyn - fesul dipyn bach bob dydd. 'Does dim angen rhuthro drwy'r pecyn. Cofiwch gadw'r gweithgareddau yn hwyliog ac ysgafn fel nad oes laru ar y "gwaith".

Y darn darllen

Darllenwch GYDA'ch plentyn i ddechrau—wedyn y plentyn i ddarllen ar ben ei hun lle bo hyn yn bosib..

Os mae'r tesun yn rhy anodd— gall eich plentyn "smalio bod yn athro" a phwyntio at y geiriau i chi eu darllen.

Stopiwch ar ôl pob brawddeg a MEDDWL am yr ystyr.

EGLURWCH geiriau newydd.

Ydy eich plentyn yn gallu ail-adrodd y testun yng ngeiriau ei hun?

Gofyn ac ateb cwestiynau ar y diwedd: ydy eich plentyn yn gallu meddwl am gwestiynau i ofyn? (sgil anodd!)

Dylid ail- ddarllen y testun bob hyn a hyn i hybu hyder eich plentyn. Defnyddiwch leisiau gwahanol, doniol ac annog eich plentyn i wneud hefyd — hwyl , hwyl , hwyl!

Nid oes raid printio neu gwblhau pob tudalen— croeso i chwi ddewis a dethol yn ôl diddordeb a gallu eich plentyn.

Gweithgareddau ychwanegol :

- Ymchwilio gwybodaeth am yr anifail arlein; clipiau fideo ; cwis arlein
- Celf a chreffft— masgiau neu pyped anifail; tynnu llun/ paentio'r anifail . Mae digon o syniadau ar lein—"How to draw a carton cat"; origami ; dylunio cartref i'r anifail ; papier machê neu clai / toes blawd
- Creu llyfr prosiect / poster
- Eisio creu siâp yr anifail allan o flociau / lego/ botymau / pasta
- Creu gêm pâr efo'r lluniau gair a llun—angen printio ddwywaith a gludo ar gardyn; rhoi'r cardiau mewn rhes , wyneb i waered—fedr eich plentyn gofio'r drefn? Fedrwch chi?!

Mae'r syniadau'n ddi-ri! Rhannwch efo rhieni eraill sydd â diddordeb!

Y Mwnci



Mae'r mwnci yn byw yn Affrica, Asia a De America.

Mae mwy na 260 math o fwnci yn y byd.

Mae rhai mwncïod yn byw yn y coed, ac yn defnyddio eu cynffon i symud o un goeden i'r llall.

Mae mwncïod eraill yn byw ar y tir, ac yn mynd at y coed pan fyddant angen bwyd neu bod yn ddiogel.


Blew dros ei gorff sydd gan y mwnci.

Mae'r rhan fwyaf o fwncïod yn bwyta cnau, ffrwythau, hadau, blodau a chig fel madfallod bach, pryfaid, a phryfaid cop.

Wyddoch chi ...?

- Mae 27 math o fwnci yn byw yn y sŵ..
- Gall y mwnci fyw nes y bydd yn 50 mlwydd oed yn y gwyllt.
- Enw ar grŵp o fwncïod ydi 'llwyth o fwncïod'.





Gwir neu gau? Gallwch dorri'r cardiau a'u darllen efo'ch plentyn. Y plentyn i benderfynu os yw'r frawddeg yn wir neu ddim a'i rhoi yn y gist gywir.

Mae mwncïod yn bwyta pryfaid.	Anifail anwes ydi'r mwnci.	Mae'r mwnci yn bwyta plastig.
Gall mwnci fyw nes y bydd yn 100 oed.	Un math o fwnci sydd yna.	Mae gan y mwnci ffwr dros ei gorff.
Mae rhai mwncïod yn byw yn Asia.	Mae'r mwnci yn defnyddio ei gynffon i symud o un goeden i'r llall.	Mae 27 gwahanol fath o fwnci yn byw yn y sŵ.
Enw ar lawer o fwncïod yw 'grŵp o fwncïod'.	Mae'r mwnci yn byw yn De America.	Mae mwncïod yn byw yn Rwsia.



Gwir



Gau



Deall geiriau / gêm pâr / cofio'r lluniau mewn trefn

mwnci




coed



chnau




sŵ



Affrica



pry' cop



Geiriau Dryslyd!

tfwfyhr

odec

frcfAai



blew

mwnci

cnau

coed

ffrwyth

sŵ

Affrica

llwyth

cynffon

cuan


nciwm

tlhwly

cfnyfon

eblw

ŵ s



Map meddwl i helpu eich plentyn gynllunio neu gofnodi darn o waith. Nid oes angen brawddegau llawn , dim ond nodiadau. Mae lluniau yn dderbyniol os nid yw ysgrifennu'n hawdd i'ch plentyn. Trefnu meddyliau yw'r nôd!

Beth yw mwnci? Anifail
(mamal? aderyn ? pysgodyn?)

Pa anifeiliaid eraill sy'n debyg i'r mwnci?

Ble mae mwciod yn byw?


Beth arall fedri di ddweud am y mwnci?



Beth sydd gan y mwnci? *Cynffon etc*

Beth mae mwnciod yn gallu gwneud?

Beth mae'r mwnci yn ei fwyta?



Darllenwch y geiriau i ddechrau. Ydy'ch plentyn yn deall y geiriau? Fedr eich plentyn egluro ystyr y geiriau (anodd!) Fedrwch chi feddwl am frawddeg yn cynnwys y gair?

d	i	o	g	e	l	a	h	i	e
a	r	e	t	l	f	d	o	m	p
c	o	b	u	a	o	s	l	w	r
n	w	m	a	d	f	a	l	l	y
g	g	u	c	n	e	t	y	c	f
i	w	l	e	d	u	o	s	m	a
b	y	t	m	f	i	r	y	f	i
s	l	r	o	a	b	g	d	l	d
o	l	i	t	w	s	n	d	e	i
a	t	d	A	f	f	r	i	c	a


diogel

madfall

gwyllt

Affrica

pryfaid



Gallwch dorri'r cardiau i adeiladu brawddegau a'u darllen efo'ch plentyn. Y plentyn i benderfynu os yw'r frawddeg yn gwneud synnwyr!

1 Mae mwncïod	2 yn bwyta	3 chnau.
1 Mae mwncïod	2 yn byw yn	3 y coed.
1 Mae mwncïod	2 yn gallu byw nes eu bod	3 yn 50 oed
1 Mae grwp o fwncïod	2 yn cael eu galw yn	3 'llwyth o fwncïod'.
1 Mae mwncïod	2 yn mynd i'r coed er mwyn	3 cadw'n ddiogel.




Cofiwch ysgrifennu mewn prif-lythrennau!



Ar draws


1. Mwy nag un mwnci
4. Mwncïod yn nol bwyd yma, a chadw'n ddiogel
6. mae gan y mwnci hwn dros ei gorff
7. Grwp o fwncïod ydi ' _ _ _ _ _ '



I lawr

1. Rhywbeth mae'r mwnci yn ei fwyta
2. Mae mwnci hefyd yn bwyta pryfed _ _ _
3. saff
5. Mae 27 math o fwnci yn byw yn y _____.

SW	COED	DIOGEL	COP	LLWYTH	MADFALL	BLEW	MWNCIÖD
----	------	--------	-----	--------	---------	------	---------



Edrychwch ar y lluniau. Fedrwch chi greu lluniau tebyg?



Her dysgu ar y cof!

Mwnci bach,

Mwnci mawr,

Mwnci'n cysgu ar y llawr.

Mwnci brown, mwnci du,



Mwnci'n neidio ar ben y tŷ.



Mae Meri y mwnci yn morio canu,

A Maldwyn y mochyn yn methu cysgu!



<https://savedyouaspot.com/2019/01/16/5-benefits-for-children-learning-poetry-by-heart/>







Jig sô

sgiliau torri a gludo

